**Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd 29 Gorffennaf2021 sydd eto i'w Cadarnhau**

**(a gynhaliwyd yn electronig trwy Microsoft Teams ac a ffrydiwyd yn fyw dros y we)**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Kate Eden | (KE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Judi Rhys | (JR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector) |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RB-W) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| **Yn bresennol:** | | |
| Sally Attwood | (SA) | Cyfarwyddwr Pontio Iechyd a Lles |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Gwybodaeth ac Ymchwil |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Liz Blayney | (LB) | Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Paul Daulton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Danny Donovan | (DD) | Rheolwr Cyfathrebu Digidol |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| Leah Morantz | (LM) | Pennaeth Cyfathrebu |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd o'r Fforwm Partneriaeth Staff |
| Jamie Topp | (JT) | Golygydd Digidol |
| Verity Winn | (VW) | Arweinydd Archwilio (Perfformiad), Archwilio Cymru |
| **Ymddiheuriad:** | | |
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC) |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |

*Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol*

**PHW 276/2021 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod ac ymestynnodd groeso cynnes i'r sawl oedd yn gwylio'r cyfarfod ar-lein. Estynnodd groeso arbennig i'r Cyfarwyddwyr hynny oedd yn ymuno â'r cyfarfodydd Bwrdd am y tro cyntaf.

- Sally Attwood, Cyfarwyddwr Pontio Iechyd a Lles:
- Dr Fu-Meng Khaw, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol:
- Iain Bell, Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Gwybodaeth ac Ymchwil

Crynhodd JW rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad gyda chyfrifoldebau penodol ar gyfer: gosod cyfeiriad strategol; llunio a chynnal partneriaethau strategol; gosod derbynioldeb risg a goruchwylio risgiau strategol; craffu cyflenwi yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau a gosod naws a diwylliant sefydliadol. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau y gallai pob aelod o staff ddod i'r gwaith a bod yn driw i'w hunain a bod y gorau y gallen nhw fod, heb ofni anfantais na gwahaniaethu o unrhyw fath.

Rhoddodd JW wybod bod y Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol ag Cod Ymddygiad y Bwrdd ffurfiol; roedd hyn i'w weld ar y wefan ac yn darparu ar gyfer darllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod. Roedd hyn yn gwneud y gorau o'r amser trafod fyddai ar gael ar y diwrnod.

Crynhodd JW yr eitemau ar yr agenda, gan nodi, er bod y Bwrdd wedi canolbwyntio ar fobileiddio COVID-19 y llynedd, bod eitemau bellach yn cynnwys dychwelyd yn raddol i ffocws ehangach y Bwrdd. Byddai'r cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar faterion yn ystod y flwyddyn gan gysylltu ag agenda'r dyfodol lle y byddai'n briodol.

Nododd y Bwrdd ddau ymddiheuriad am absenoldeb gan yr Athro Mark Bellis a'r Athro Diane Crone.

**PHW 277/2021 Datganiadau o Fuddiannau**

Ni ddatganodd aelodau'r Bwrdd unrhyw fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**PHW 278/2021 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

**PHW 278.1/2021 Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Cyflwynodd TC yr adroddiad a thynnodd sylw arbennig at y canlynol:

- symud staff yn raddol ac o dan reolaeth yn ôl i'w rolau craidd;
- esblygiad yr ymateb diogelu iechyd yn ystod COVID-19 a symud tuag at ddatrysiad cynaliadwy;
- Adolygiad Atebolrwydd Blynyddol y Cydbwyllgor Gweithredol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru; mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Andrew Goodall, wedi mynegi ei ddiolch am gyfraniad sylweddol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;
- y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yn union cyn y cyfarfod Bwrdd; roedd yn cynnwys cyflwyniadau am gyflawniadau a dysgu allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda ffocws sylweddol ar y pandemig. Ailadroddodd TC ei balchder ym mhob aelod o staff am y modd y wynebon nhw her COVID-19.

  Yna adroddodd TC ar ddau fater ychwanegol:

- Cynhadledd Staff rithwir, a gynhaliwyd ar 29 Mehefin, a ddathlodd y gwaith a wnaed drwy'r sefydliad cyfan; estynnodd TC ei diolch i NL fel Meistr y Seremonïau, y Tîm Cyfathrebu, pob aelod o staff a ymddangosodd yn y cyflwyniadau a phawb fu'n cymryd rhan yn y gwaith o ddylunio a chyflwyno'r digwyddiad. Dathlodd gyfraniad Arwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod un o'r cyfnodau mwyaf heriol. Cyfeiriodd TC at gyfarfod positif iawn y cafodd hi, JW a RB-W y diwrnod blaenorol gyda rhai o Lysgenhadon Ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru; gofynnodd i RB-W roi ychydig o gefndir i'r Rhaglen Llysgenhadon Ifanc. Amlinellodd RBW sefydlu'r Rhaglen yn 2019, y cynnydd sylweddol a wnaed cyn COVID-19 a'r cynlluniau yn awr i ailddechrau'r rhaglen waith, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Llysgenhadon Ifanc yn cymryd rhan ac yn gweithio gyda'r Bwrdd. Byddai angen dull cynlluniedig i sicrhau y byddai'r llysgenhadon ifanc, yr oedd llawer ohonyn nhw'n newydd, yn cael y gefnogaeth briodol i

gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd a datblygu eu rhaglen waith eu hunain. Byddai nifer o’r Llysgenhadon Ifanc yn ymuno â’r Bwrdd yn sesiwn ddatblygu mis Hydref 2021 a nododd RBW y paratoadau ar gyfer hon.

- 

**Cam Gweithredu: RB-W**

- Ychwanegodd MK fanylion am y gwaith o ddatblygu model ymateb diogelu iechyd cynaliadwy; cyfeiriodd at y cyd-destun cyfnewidiol, yn arbennig wrth gyflwyno rhaglen frechu Cymru gyfan yn llwyddiannus. Paratodd y model gweithredu diwygiedig, a gyflwynwyd ar 5 Gorffennaf 2021 dros dro, am dîm canolog cenedlaethol Cymru gyfan - COVIDAWARE - a chymorth ar lefel ymgynghorydd ac ymarferydd ar lefel ranbarthol. Roedd cyflwyno’r newidiadau wedi amlygu’r angen am waith pellach i egluro rolau a chyfrifoldebau ar draws y system a byddai dau ddigwyddiad dysgu arfaethedig (gyda llywodraeth leol ac yna’r system ehangach yn y drefn honno) yn dechrau ar y gwaith, gan gasglu dysgu ar yr un pryd. Bydd MK yn diweddaru’r Bwrdd am y gwaith hwn.

**Cam Gweithredu: MK**

**Nododd** a chymerodd y Bwrdd **sicrwydd** o’r Adroddiad.

## PHW 278.2/2021 Adroddiad Perfformiad Integredig

Cyflwynodd HG yr adroddiad gan nodi’r bwriad i fireinio fformat yr adroddiad o gyfarfod Bwrdd mis Medi 2021 ymlaen trwy gynnwys mwy o fewnwelediadau i’r data a gyflwynir, a’u dadansoddi. Oherwydd bod aelodau’r Bwrdd wedi darllen y ddogfen, nododd pob Arweinydd Gweithredol unrhyw faterion allweddol a gwahoddwyd sylwadau/ymholiadau.

<u>Y gweithlu</u>

Hysbysodd NL y Bwrdd fod y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi canolbwyntio ar y Dangosfwrdd yn ei gyfarfod ar 8 Gorffennaf 2021; amlygodd y sefyllfa mewn perthynas â’r broses werthuso a chyfraddau cwblhau Fy Nghyfraniad a hysbysodd y Bwrdd o’r camau ar y gweill. Nododd NL hefyd y sefyllfa absenoldeb salwch.

Diolchodd JW i NL ac yna gwahoddodd gwestiynau:

- Cododd MM y perfformiad ynghylch asesiadau risg a gwblhawyd; bu hwn yn sefydlog ar tua 56% am y tri mis diwethaf. Roedd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi ystyried camau gweithredu ychwanegol i wella’r sefyllfa, gan gynnwys ystyried data ar lefel adrannol er mwyn gallu cefnogi camau wedi’u ffocysu. Ychwanegodd NL fanylion pellach am

y gwaith ar y gweill a chadarnhaodd MM y byddai'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn parhau i graffu ar y ddau fater hyn ar ran y Bwrdd.

**Cam Gweithredu: MM/NL**

Yn ogystal, nododd MM, er bod cyfraddau brechu staff yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn gyffredinol, roedd tua 10% o staff rheng flaen heb eu brechu o hyd. Gofynnodd am y broses asesu risg mewn perthynas â'r grŵp hwn o staff. Roedd RBW yn falch o adrodd sefyllfa well gyda 94% o staff bellach wedi'u brechu. Roedd y 6% o staff oedd yn weddill yn cynnwys: staff ar gyfnod mamolaeth, rhai materion oedi data; a rhai aelod staff iau yn bennaf oedd yn betrusgar ynghylch y brechlyn, petruster oedd i'w weld ymhlith grwpiau oedran iau ledled y DU. Crynhodd y camau ar waith i ymgysylltu â'r staff dan sylw, gyda chymorth 1:1 ar gael os oedd angen. Aeth RB-W ymlaen i nodi'r trafodaethau parhaus gydag Undebau Llafur a sefydliadau cynrychiadol eraill ar lefel y pedair gwlad ynghylch brechu gorfodol; nid oedd consensws presennol am y dull hwnnw.

Gofynnodd JW am effaith recriwtio staff 242 WTE ychwanegol ar amrywiaeth y gweithlu; gofynnodd i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol edrych ar y mater fel rhan o'i waith ehangach ar amrywiaeth a chynhwysiant a diweddaru'r Bwrdd yn unol â hynny.

**Cam Gweithredu: MM/NL**

<u>Cyllid</u>

Atgoffodd HG y Bwrdd fod hwn yn gam cynnar yn y flwyddyn ariannol; cadarnhaodd y sefyllfa parthed rhagolwg mantoli'r cyfrifon a chyflawniad rhagamcanol yr holl dargedau ariannol. Tynnodd HG sylw at y buddsoddiad cyfalaf ychwanegol yn ystod y flwyddyn; roedd yn cynrychioli cyllid ar sail gydweithredol Cymru gyfan, yn ogystal, cyllid i ddechrau rhaglen sgrinio'r fron ddigidol newydd yn dilyn cymeradwyaeth gan Weinidogion. Yn olaf, rhoddodd HG wybod, o ystyried y risgiau oedd yn mynd rhagddynt yn gysylltiedig â COVID-19, byddai'n briodol adolygu'r sefyllfa gyffredinol ganol y flwyddyn a phenderfynu ar yr angen ar gyfer unrhyw addasiadau ar gyfer dyraniad ariannol.

**Cam Gweithredu: HG**

<u>Cynllun Gweithredol</u>

Cadarnhaodd HG fod targedau a cherrig milltir yn unol â'r targed ar y cyfan; ychwanegodd JB fanylion am y camau sydd ar waith mewn perthynas â nifer o faterion samplu a phrofi.

<u>Ansawdd</u>

Tynnodd RB-W sylw at yr adferiad mewn perthynas â tharged Cwynion Haen 1, cynnydd o 27% ym mis Ebrill 2021 i 100% ar hyn o bryd.

Gwnaeth RB-W sylw am system Llywodraeth Cymru newydd ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau difrifol; roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi adrodd am un digwyddiad difrifol yn ymwneud â sgrinio ac un ar sail 'dim syndod'.

Roedd y sefyllfa mewn perthynas â chau digwyddiadau'n parhau'n heriol gyda 306 o achosion agored. Nododd RBW nad rhif sefydlog ydoedd a bod y mwyafrif o achosion yn ymwneud â'r is-adrannau sgrinio a microbioleg; roedd yr is-adrannau hyn yn y broses o adfer ac roedd cefnogaeth sefydliadol ar gael i'w cynorthwyo gyda chau achosion y byddai angen eu cwblhau i weithredu'r system Datix newydd.

Yn olaf, crynhodd RBW y gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu cynllun datblygu risg i adnewyddu'r dull o reoli risg.

<u>Sgrinio</u>

Cyfeiriodd MK at y ffocws ar ailgychwyn rhaglen, gan gydnabod effeithiau tymor hir y flwyddyn ddiwethaf. Nododd yr angen am gynllunio gofalus ac adnoddau ychwanegol i ddiwallu taflwybrau targed blaenorol; roedd yr heriau mwyaf yn ymwneud â sgrinio llygaid diabetig a sgrinio ymlediadau aortig abdomenol. Roedd yr heriau hyn o ganlyniad yn rhannol i'r boblogaeth dan sylw ac yn rhannol oherwydd mynediad cyfyngedig i leoliadau o ganlyniad i COVID-19. Mae'r tîm sgrinio wedi ceisio ehangu ei ddulliau ac wedi mabwysiadu datrysiadau arloesol; bydd goblygiadau adnoddau'n gysylltiedig â'r rhain.

Diolchodd JW i RB-W a MK ac yna gwahoddodd sylwadau a chwestiynau:

- Pwysleisiodd TC bwysigrwydd cynyddu ymgysylltiad â'r rhaglenni sgrinio fel rhan allweddol o leihau anghydraddoldebau ac annhegwch.

- Gofynnodd MM a fyddai'n bosibl mesur yr ôl-groniad sgrinio a'r adnoddau fyddai eu hangen i fynd i'r afael â hyn. Cadarnhaodd MK y manylion pellach oedd ar gael ar gyfer pob rhaglen sgrinio; byddai'n rhannu hyn.

  **Cam Gweithredu: MK**

- Nododd y byddai hyd yr adferiad yn dibynnu ar yr ôl-groniad ar gyfer pob gwasanaeth a byddai'n amrywio o sawl mis i hyd at 2.5 flynedd. Roedd amcangyfrif o £1.8 miliwn ychwanegol yn angenrheidiol ac roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater.

- Nododd JR yr amrywiaeth rhwng Byrddau Iechyd (BI) ynghylch mynediad at golonosgopi sgrinio'r coluddyn; gofynnodd beth oedd y rheswm am hyn ac a oedd anghydraddoldebau'n chwarae rhan yn y mater, ac a oedd unrhyw beth i'w ddysgu gan y BI gyda chyfradd mynediad gwell. Cadarnhaodd MK iddo godi'r amrywiad mewn cyfraddau colonosgopi BI gyda Llywodraeth Cymru; mewn rhai ardaloedd o Gymru roedd yr amser aros yn 26 wythnos a oedd yn gyfnod annerbyniol. Roedd yr amrywiadau o ganlyniad yn rhannol i ddiffyg gallu arbenigol ac roedd y datrysiadau yn nwylo'r BI i adnabod ffyrdd o ychwanegu at allu. Nododd MK yr ymarfer 'gwraidd y mater' sydd ar y gweill ar hyn o bryd oedd yn canolbwyntio ar sut y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru gynorthwyo'r BI hynny gyda'r oedi hir i wella eu sefyllfaoedd; roedd cyfarfod diweddar wedi canolbwyntio ar y mater hwn.

- Myfyriodd DE ar y ffordd yr oedd y pandemig wedi amlygu natur hanfodol sgrinio ar iechyd y boblogaeth yng Nghymru. Cefnogodd y gwaith ar y gweill i ystyried y grwpiau anodd eu cyrraedd ac awgrymodd y gallai'r datrysiadau fod o fewn gafael lefel-cymuned. Defnyddiodd fan sgrinio symudol Prawf y Fron Cymru wedi'i lleoli mewn lleoliadau lleol hawdd eu cyrraedd fel enghraifft o wella mynediad. Nododd MK fod gwaith ar y gweill, gyda thrafodaethau'n cynnwys y byd academaidd, i ddod o hyd i ddatrysiadau am y ffordd orau i ddarparu ymyraethau sgrinio a sut i wella cyfleoedd am fynediad.

- Cadarnhaodd KE i QSIC ystyried rhaglen adfer fanwl yn ddiweddar a'r heriau y byddai hon yn ei chynnig. Roedd QSIC wedi herio'r tîm i ystyried materion anghydraddoldeb yn fwy manwl a chreu rhaglenni sgrinio ar sail decach a mwy cyfiawn. Nododd y byddai QSIC yn ailystyried hyn yn yr hydref er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd. Ceisiodd gael diweddariad ynghylch cadarnhau'r arian gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd HG fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyfrannu rhywfaint o gyllid i ganiatáu i'r gwaith ddechrau; nododd y cyfathrebiad diweddaraf gan Lywodraeth Cymru.

- Nododd SG effeithiau posibl ailgychwyn wrth i ni agosáu at y gaeaf; gofynnodd ynghylch rheoli gallu a sut y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiogelu ei gynlluniau at y dyfodol er mwyn sicrhau y byddent yn gadarn wrth wynebu galw ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r tymor. Cytunodd MK fod angen asesu a monitro gofalus; nododd bygythiad ar fin digwydd gan niferoedd cynyddol o Feirysau Syncytiol Anadlol, sy'n anarferol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae hyn wedi ysgogi ymgyrch gyfathrebu benodol. Nododd MK yr angen i sicrhau dull cytbwys o ymdrin â COVID-19 ochr yn ochr â risgiau iechyd y cyhoedd eraill: Nid COVID-19 fyddai'r unig fygythiad ac roedd gwaith ar y gweill ledled gwledydd y DU i ystyried COVID-19 yng nghyd-destun salwch a risgiau eraill. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i lunio ymateb cymesur.

**Nododd** y Bwrdd yr holl faterion a godwyd a **chymerodd sicrwydd** o'r diweddariadau a ddarparwyd.

**PHW 278.3/2021 Diweddariad Cyffredinol Coronavirus Newydd (COVID-19)**

Amlygodd MK nifer o bwyntiau allweddol:

- Y gyfradd saith diwrnod presennol o 155.2 fesul 100,000; gostyngiad ar y cyfnod saith diwrnod blaenorol;
- Roedd y gostyngiad yn berthnasol ledled ardaloedd ALl. Gwelodd Sir Ddinbych y niferoedd uchaf, gyda chyfradd o 406.5 fesul 100,000; roedd hyn yn ostyngiad o 99.3 fesul 100,000 ar y gyfradd flaenorol;
- Gwelodd fis Mehefin yr achos cyntaf o'r amrywiolyn Delta; roedd yn destun tracio gofalus, i ddechrau i geisio rheoli'r amrywiolyn a phan nad oedd hynny'n bosibl, i reoli lledaeniad cymunedol a chlystyrau. Roedd niferoedd dyddiol ar eu hanterth bedwar diwrnod yn ôl gyda 500 - 600 achos yn cael eu cofnodi'n ddyddiol, yn bennaf yng ngogledd Cymru, o ganlyniad i deithio ar draws y ffin i ogledd orllewin Lloegr;
- Roedd gostyngiad yn y niferoedd yn galluogi canolbwyntio ar lunio'r ymateb yn y dyfodol;
- Er bod niferoedd wedi gostwng, gallai cau ysgolion a sefydliadau addysg eraill dros yr haf fod wedi cael effaith ar leihau niferoedd;
- Adnabod amrywiolyn newydd ym mis Gorffennaf; cafodd un achos ei gadarnhau yng Nghymru a 29 achos yn gyfan gwbl ledled y DU; ystyriwyd y byddai'n bosibl rheoli'r risg ar hyn o bryd.
- Cyhoeddiad gan Weinidogion am y rhaglen brechiad atgyfnerthu COVID-19.

Crynhodd MK y sefyllfa fel a ganlyn: roedd bygythiad amrywiolyn Delta yn lleihau; roedd effaith yr amrywiolyn Delta yn isel, o safbwynt morbidrwydd a marwolaeth, yn rhannol oherwydd cyfraddau brechu uchel yng Nghymru; roedd gwyliadwriaeth genomig yn parhau.

Diolchodd JW i MK am y diweddariad manwl hwn a gwahoddwyd sylwadau a chwestiynau:

- Croesawodd SG y sefyllfa bositif gyffredinol a gofynnodd am gadarnhad o ymgysylltiad Cymru yn y rhaglen sgrinio genomig integredig wedi'i hehangu. Cadarnhaodd MK fod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau ac roedd yn ystyried achos busnes gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd wedi'i dylunio i gryfhau capasiti a gallu profi ymhellach. Gallai hyn gynnwys adnabod lleoliadau ychwanegol ledled Cymru.

- Gofynnodd MM am eglurhad p'un a oedd y farn fod adleoli staff yn sgil COVID-19 wedi dod i ben fwy neu lai, gan alluogi staff i ddychwelyd i'w swyddi a'u dulliau o weithio arferol. Nododd MK, er bod niferoedd yn gostwng a bod rhywfaint o lacio cyfyngiadau, roedd y risgiau'n parhau;

byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol wrth ymateb i'r pandemig. Ceir adolygiad o'r sefyllfa ym mis Awst.

**Nododd** y Bwrdd y diweddariad a ddarparwyd a **chymerodd sicrwydd** o'r trafodaethau.

**PHW 278.4/2021 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion** Pwyllgorau

Gwahoddodd JW Gadeiryddion y Pwyllgorau i roi diweddariad ar lafar ar unrhyw faterion nad oedd eisoes wedi'u cynnwys yn ystod y trafodaethau.

Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (ACGC)
Rhoddodd DE wybod i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethau Corfforaethol gwrdd ddiwethaf ym mis Mehefin a byddai'n cwrdd nesaf ym mis Medi. Nid oedd unrhyw faterion i'w codi yn ychwanegol i'r trafodaethau cynharach.

Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (QSIC)
Nododd KE y cyfeiriad blaenorol at yr ymarfer at wraidd y mater adfer sgrinio. Yn ogystal, nododd gweithredu'r Fframwaith Ansawdd a Gwella a gymeradwywyd gan y Bwrdd; roedd y Cynllun Gweithredu wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd.

Pobl a Datblygu Sefydliadol (POD)
Nododd MM fod y broses recriwtio staff wedi arwain at geisiadau o bob cwr o'r DU yn ogystal ag yn rhyngwladol; croesawyd y newyddion hyn. Gallai modelau gweithio amgen, gan gynnwys gweithio ar-lein, fod wedi denu ystod ehangach o ymgeiswyr.

Cyfeiriodd JW at ailgychwyn y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil (KRIC) cyn diwedd y flwyddyn galendr yn dilyn sesiwn ddatblygu ar ddechrau'r hydref.

**Nododd** y Bwrdd y diweddariadau a ddarparwyd yn yr eitem hon ac fel rhan o'r eitemau Agenda blaenorol; **cymerodd** yr aelodau **sicrwydd** o'r gwaith ar y gweill.

**PHW 278.5/2021 Llywodraethu Bwrdd a Phwyllgor**

Cyflwynodd JW yr adroddiad gan ddarparu nifer o ddiweddariadau ar drefniadau Llywodraethu'r Bwrdd yn ystod y pandemig COVID-19 parhaus; i geisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer newidiadau pellach o Awst 2021 ymlaen.

Cymeradwyodd y Bwrdd y canlynol:
- **cymeradwyo** ailddechrau'r Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil yn nhrydydd chwarter 2021/22;
- **cymeradwyo**'r dulliau o gynnal cyfarfodydd fel y nodir yn yr adroddiad.

**PHW 279/2021 Eitemau i'w Cymeradwyo**

| **PHW 279.1/2021 Bwrdd** | **Cofnodion a Chofnodion Gweithredu o'r Cyfarfod ar 27 Mai 2021, 10 Mehefin 2021 a 24 Mehefin 2021** |
|---|---|
| **Cymeradwyodd** y Bwrdd gofnodion cyfarfod Bwrdd 27 Mai 2021 fel cofnod cywir, yn amodol ar un newid ar Dudalen 5; roedd hwnnw'n cyfeirio at staff yn ailgychwyn ar eu swyddi allweddol, tra bod rhai staff yn ailgychwyn eu swyddi ar yr adeg honno.<br><br>**Cymeradwyodd** y Bwrdd gofnodion y cyfarfodydd arbennig ar 10 a 24 Mehefin fel cofnod cywir o bob cyfarfod.<br><br>**Nododd** y Bwrdd y Cofnodion Gweithredu a'r diweddariadau a oedd wedi'u cynnwys ar gyfer y cyfarfod. | |
| **PHW 280/2021** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **PHW 280.1/2021** | **Diweddariad blynyddol am Bwyllgor PCGC 2021/21 Gweithgareddau** |
| **Nododd** y Bwrdd y diweddariad blynyddol. | |
| **PHW 280.2/2021** | **Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW)** |
| Croesawodd RB-W yr adborth positif mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. **Nododd** y Bwrdd yr adroddiad yn unol â hyn. | |
| **PHW 281/2021** | **Dyddiad y Cyfarfod Bwrdd Ffurfiol Nesaf** |
| Dyddiad y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu oedd 30 Medi 2021 | |
| **PHW 282/2021** | **Cau'r Cyfarfod Cyhoeddus** |
| Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm | |